



## YGG Rhosafan

### Datganiad Preifatrwydd

#### Sut rydym yn defnyddio gwybodaeth disgyblion

Er mwyn gallu cefnogi lles a chynnydd eich plentyn yn yr ysgol bydd gofyn i ni gasglu amrywiaeth o ddata personol. Mae'r Datganiad Preifatrwydd hwn yn amlinellu'r data rydym yn ei gasglu a sut caiff ei brosesu gan yr ysgol yn unol â'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR). Fel rhiant, mae gennych yr hawl i wneud penderfyniadau am ddata personol eich plentyn tan ei fod yn 16 oed.

Darllenwch y datganiad hwn a'r Hysbysiad Preifatrwydd atodedig a'u cadw er gwybodaeth i chi.

At ddibenion yr wybodaeth hon, diffinnir yr ysgol fel y rheolwr data yn unol â Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol 2016 ac unrhyw ddeddfwriaeth diogelu data ddilynol.

**Mae'r categorïau o wybodaeth am ddisgyblion rydym yn eu casglu, eu prosesu, eu cadw a'u rhannu'n cynnwys:**

- Gwybodaeth bersonol (megis enw, rhif a chyfeiriad unigryw'r disgybl a lluniau)
- Nodweddion (megis ethnigrwydd, iaith, cenedligrwydd, gwlad enedigol a hawl i brydau ysgol am ddim)
- Gwybodaeth am bresenoldeb (megis y sesiynau yr eir iddynt, nifer yr absenoldebau a'r rhesymau dros absenoldebau)
- Gwybodaeth asesu (megis profion, profion llythrennedd a rhifedd cenedlaethol, lefelau ac adroddiadau diwedd cyfnodau allweddol)
- Gwybodaeth feddygol berthnasol (wedi'i darparu ar gardiau meddygol)
- Gwybodaeth am ymddygiad (megis digwyddiadau yn y dosbarth neu o amgylch yr ysgol a'r camau gweithredu a gymerwyd)
- Gwaharddiadau (mae'r holl waharddiadau tymor penodol yn cael eu nodi)
- Anghenion Dysgu Ychwanegol (megis CAU, adroddiadau seicoleg addysg a'r wybodaeth a ddefnyddir i gefnogi disgyblion yn eu haddysg)
- Gwybodaeth ddiogelu (megis gwybodaeth am les, amddiffyn plant a gwybodaeth am ddisgyblion sy'n derbyn gofal, clipiau CCTV)

#### **Pam rydym yn casglu ac yn defnyddio'r wybodaeth hon**

Rydym yn defnyddio data disgyblion i:

- gefnogi dysgu disgyblion
- monitro ac adrodd am gynnydd disgyblion
- darparu gofal bugeiliol addas
- asesu safon ein gwasanaethau
- cydymffurfio â'r gyfraith o ran rhannu data
- darparu a rheoli clybiau ar ôl ysgol a gwibdeithiau ysgol

## Y sail gyfreithlon sydd gennym ar gyfer defnyddio'r wybodaeth hon

Rydym yn sicrhau bod y sail rydym yn ei defnyddio ar gyfer casglu a phrosesu data personol a sensitif yn gyfreithlon o dan Erthygl 6 ac Erthygl 9 y GDPR o 25 Mai 2018.

Gellir cael mwy o wybodaeth am Erthygl 6 ac Erthygl 9 ynghyd â'ch hawliau dan y GDPR o wefan y Comisiwn Gwybodaeth :- <https://ico.org.uk/>

## Casglu gwybodaeth am ddisgyblion

Er bod y mwyafrif o'r wybodaeth am ddisgyblion rydych yn ei darparu i ni'n orfodol, darperir peth ohoni'n wirfoddol. Er mwyn cydymffurfio â'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol ac unrhyw ddeddfwriaeth diogelu data ddilynol, byddwn yn rhoi gwybod i chi os oes angen i chi ddarparu gwybodaeth benodol am ddisgyblion i ni neu a oes gennych ddewis wrth wneud hyn.

## Storio data disgyblion

Byddwn yn cadw data disgyblion am gyhyd ag y bo angen yn unol â pholisi cadw'r ysgol (sydd ar gael o'r ysgol a/neu ar wefan yr ysgol).

## Y bobl rydym yn rhannu data disgyblion â hwy

Rydym yn rhannu gwybodaeth am ddisgyblion yn rheolaidd â'r canlynol:

- Llywodraeth Cymru
- ein hawdurdod lleol
- Estyn
- Capita Sims (System Rheoli Gwybodaeth)
- Consortiwm (ERW)
- Gyrfa Cymru
- GIG
- ysgolion/ colegau y mae'r disgybl yn mynd iddynt ar ôl ein gadael

Rydym hefyd yn rhannu data ag unrhyw drydydd parti i gefnogi'ch plentyn yn ystod ei gyfnod yn yr ysgol:

- Data ar gyfer cyrhaeddiad (Alps, FFT Aspire, Asesiad GL, Byrddau Arholi [CBAC])
- Data ar gyfer dysgu ac addysgu (Iris Connect, PiXL, System llyfrgell, Rapid Reading)
- Data ar gyfer mynediad at Hwb (gan gynnwys Google a Microsoft)

- Data ar gyfer mynediad at adnoddau cwmwl (Apple)
- Data ar gyfer system heb arian parod (ParentPay)
- Data ar gyfer system arlwy (Nationwide)
- Data ar gyfer gwasanaeth negeseuon testun (Teachers2parents)
- Data ar gyfer diogelu (gwasanaethau plant a'r Heddlu)
- Data ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol (ADY) (gwasanaethau cefnogi'r awdurdod lleol, gan gynnwys Seicolegydd Addysg)
- Data ar gyfer cefnogaeth feddygol (Cardiau meddygol, asesiadau risg, cynlluniau gofal iechyd ac adroddiadau am ddamweiniau)

Efallai y bydd achlysuron eraill pan fyddwn yn rhannu data â thrydydd parti:

- Ymweliadau addysgol (cwmnïau teithio/hedfan)
- Cystadlaethau allanol (Rhaglen Ymddiriedolaeth Gymunedol yr Elyrch)

Sylwer bod rhai o'r trydydd partïon hyn yn berthnasol i'ch plentyn lle bo'n briodol yn unig. Byddwn yn sicrhau bod Cytundebau Rhannu Data ar waith ar gyfer pob trydydd parti. Byddwn hefyd yn rhoi gwybod i chi am unrhyw drydydd partïon ychwanegol pan fyddant yn codi.

Prosesir yr holl ddata personol rydym yn ei brosesu gan ein staff yn y Deyrnas Unedig. At ddibenion lletya TG a chynnal a chadw, cedwir yr wybodaeth hon ar weinyddion yn yr Undeb Ewropeaidd.

## **Pam rydym yn rhannu gwybodaeth am ddisgyblion**

Nid ydym yn rhannu gwybodaeth am ein disgyblion ag unrhyw un oni bai fod y gyfraith a'n polisïau yn caniatáu i ni wneud hynny. Rydym yn rhannu data ein disgyblion â Llywodraeth Cymru ar sail statudol. Mae'r data hwn yn cynnal cyllid ysgolion a'r polisi cyrhaeddiad addysg a monitro. Mae'n rhaid i ni rannu gwybodaeth am ein disgyblion â'n hawdurdod lleol (ALI) a Llywodraeth Cymru o dan Reoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion Unigol) (Cymru) (Diwygio) 2013.

## **Gofynion casglu data:**

I gael mwy o wybodaeth am y gofynion casglu data a osodir arnom gan Lywodraeth Cymru (er enghraifft; drwy'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (PLASC)), ewch i [www.gov.wales/School Data](http://www.gov.wales/School Data).

## **Cronfa Ddata Genedlaethol y Disgyblion (NPD)**

Roedd datblygu Cronfa Ddata Genedlaethol y Disgyblion i Gymru'n brif nod i Strategaeth Rheoli Gwybodaeth (IMS) ysgolion, awdurdodau addysg lleol a darparwyr ôl 16 Cynulliad Cymru. Llywodraeth Cymru sy'n berchen ar Gronfa Ddata Genedlaethol y Disgyblion ac yn ei rheoli ac mae'n cynnwys gwybodaeth am ddisgyblion mewn ysgolion yng Nghymru. Mae'n darparu tystiolaeth werthfawr ar berfformiad addysgol er mwyn cyfarwyddo ymchwil annibynnol, yn ogystal ag astudiaethau a gomisiynir gan Lywodraeth Cymru. Cedwir yr wybodaeth hon mewn fformat

electronig at ddibenion ystadegol. Mae'r wybodaeth hon yn cael ei chasglu'n ddiogel o amrywiaeth o ffynonellau gan gynnwys ysgolion, awdurdodau lleol a chyrff dyfarnu.

Mae hi'n ofynnol i ni yn ôl y gyfraith i ddarparu gwybodaeth am ein disgyblion i Lywodraeth Cymru, fel rhan o gasgliadau data statudol megis Cyfrifiad Ysgolion Blynnyddol ar Lefel Disgyblion (PLASC) sy'n gysylltiedig â data cyrhaeddiad disgyblion sy'n ymwneud â'r ddau asesiad cyfnod allweddol statudol ac arholiadau allanol megis TGAU. Mae peth o'r wybodaeth hon yn cael ei storio yn yr NPD. Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion Unigol) (Cymru) 2013 yw'r gyfraith sy'n caniatáu hyn.

I gael mwy o wybodaeth am yr NDP, ewch i Reoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion Unigol) (Cymru) (Diwygio) 2013: <https://www.deddfwriaeth.gov.uk/wsi/2013/3137/contents/made>

Gall Llywodraeth Cymru rannu'r wybodaeth am ein disgyblion o'r NPD â thrydydd partïon sy'n hyrwyddo addysg neu les plant yng Nghymru drwy:

- gynnal ymchwil neu ddadansoddiad
- llunio ystadegau
- darparu gwybodaeth, cyngor neu arweiniad

Mae'r NPD yn wefan ddiogel â mynediad cyfyngedig i ddefnyddwyr awdurdodedig yn unig. Mae mynediad i'r gronfa ddata yn cael ei reoli'n llym drwy enwau defnyddwyr a chyfrineiriau a ddyrennir. Bydd angen i unigolion sydd am gyflwyno cais am fynediad at NPD gwblhau ffurflen gais er mwyn pennu lefel eu caniatâd. Bydd Llywodraeth Cymru'n darparu data at ddiben penodol yn unig a dim ond am gyfnod cyfyngedig, ac ar ôl hynny bydd rhaid i'r sefydliad gadarnhau ei fod wedi'i ddinistrio. Mae'n rhaid i unrhyw ddadansoddiad ddilyn rheolau datgelu Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau na ellir adnabod disgyblion unigol.

Gellir dod o hyd i fwy o wybodaeth drwy gael mynediad i we-dudalennau IMS yn: [www.wales.gov.uk/ims](http://www.wales.gov.uk/ims)

At ddibenion ymchwil sydd y tu hwnt i addysg, bydd Llywodraeth Cymru'n defnyddio technegau sy'n sicrhau bod y data'n anhysbys cyn bod unrhyw ymchwil yn cael ei chynnal. Rhannu data anhysbys y tu allan i'r GDPR.

Gellir dod o hyd i fwy o wybodaeth ar y wefan yn: [www.gov.wales/School Data](http://www.gov.wales/School Data)

## Ceisio mynediad at eich data personol

Yn unol â deddfwriaeth diogelu data, mae gan rieni a disgyblion yr hawl i ofyn i weld yr wybodaeth sydd gennym amdanynt. I wneud cais am eich gwybodaeth personol, neu i gael mynediad at gofnod addysgol eich plentyn, cysylltwch â swyddog diogelu data'r ysgol.

Mae gennych hefyd yr hawl i:

- wrthwynebu prosesu data personol sy'n debygol o achosi difrod neu niwed neu sydd yn ei achosi
- atal prosesu at ddibenion marchnata uniongyrchol
- gwrthwynebu i wneud penderfyniadau mewn modd awtomataidd
- mewn amgylchiadau penodol, cywiro, rhwystro, dileu neu gael gwared ar ddata personol anghywir; a
- hawlio iawndal am ddifrod a achosir oherwydd torri'r Rheoliad Diogelu Data

Os byddwch am ddiwygio unrhyw wybodaeth, gallwch hysbysu'r ysgol ar unrhyw adeg, a bydd yn ystyried eich cais.

Mae peth gwybodaeth y mae'n rhaid i ni ei chadw yn rhinwedd ein gofynion cyfreithiol ac os ydych yn methu darparu'r wybodaeth hon neu ddarparu gwybodaeth gywir gallech wynebu achosion cyfreithiol.

Os ar unrhyw adeg y credwch fod yr wybodaeth rydym yn ei phrosesu am eich plentyn yn anghywir, gallwch ofyn i weld yr wybodaeth hon ac mae gennych yr hawl i'w chael wedi'i chywiro neu ei dileu. Os ydych am gwyno am sut rydym wedi trafod eich data personol, gallwch gysylltu â Swyddog Diogelu Data'r ysgol a fydd yn ymchwilio i'r mater.

Os ydych yn pryderu ynghylch y ffordd rydym yn casglu neu'n defnyddio eich data personol, rydym yn gofyn i chi fynegi eich pryder i ni yn y lle cyntaf. Fel arall, gallwch gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn <https://ico.org.uk/concerns/>

## Mwy o Wybodaeth

Os hoffech drafod unrhyw beth yn y datganiad preifatrwydd hwn neu'r hysbysiad atodedig, cysylltwch â Swyddog Diogelu Data'r ysgol yn:

YGG Rhosafan  
Marine Drive  
Sandfields  
Port Talbot  
SA12 7NN



## **YGG Rhosafan**

### **Hysbysiad Preifatrwydd**

1. Wrth ddarparu eich gwybodaeth bersonol i ni rydych trwy hyn yn cydnabod mai'r ysgol yw'r Rheolwr Data ar gyfer yr holl wybodaeth bersonol rydych yn ei darparu i ni neu wedi'i darparu (at ddibenion Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol 2016 (GDPR) a Deddf Diogelu Data 2018 (DPA)).
2. Bydd y data personol rydym yn ei gasglu gennych trwy'r ffurflen hon yn cael ei ddefnyddio gan yr ysgol (yn unol â'i rhwymedigaeth i gyflawni ei swyddogaethau statudol a busnes amrywiol) at y dibenion canlynol:-
  - cefnogi dysgu disgyblion
  - monitro ac adrodd am gynnydd disgyblion
  - darparu gofal bugeiliol addas
  - asesu safon ein gwasanaethau
  - cydymffurfio â'r gyfraith o ran rhannu data
  - darparu a rheoli clybiau ar ôl ysgol a gwibdeithiau ysgol
  - darparu ymweliadau addysgol
  - darparu ymweliadau â chystadlaethau allanol
3. Fel Rheolwr Data, mae gofyn i'r ysgol o dan y GDPR roi gwybod i chi ar ba un o'r "Amodau Prosesu Data" yn Erthygl 6 y GDPR y mae'n dibynnu i brosesu'ch data personol yn gyfreithlon. Yn hyn o beth, sylwer mewn perthynas â'r data a ddarperir gennych chi ar y ffurflen hon ein bod yn dibynnu ar y ddau amod canlynol o Erthygl 6;
  - i. "Mae'r prosesu data yn angenrheidiol ar gyfer cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol y mae'r rheolwr yn destun iddo". (Erthygl 6(c) GDPR).
  - ii. "Mae'r prosesu data yn angenrheidiol ar gyfer perfformio tasg a wneir er budd y cyhoedd neu i arfer awdurdod swyddogol a ymddiriedir i'r rheolwr." (Erthygl 6(e) GDPR).
4. Gallwn rannu eich data personol yn ddiogel â'r trydydd partïon canlynol (h.y. pobl/cyrff/endidau y tu allan i'r ysgol) yn unol â'r trefniadau rhannu data sydd gennym ar waith gyda'r trydydd partïon hynny:-
  - Llywodraeth Cymru
  - ein hawdurdod lleol

- Estyn
- Capita Sims (System Rheoli Gwybodaeth)
- Consortiwm (ERW)
- Gyrfa Cymru
- GIG
- ysgolion/ colegau y mae'r disgybl yn mynd iddynt ar ôl ein gadael
- Alps, FFT Aspire, GL Assessment, Byrddau Arholi [CBAC]
- Iris Connect, PiXL, system llyfrgelloedd, Rapid Reading
- Google a Microsoft
- Apple
- ParentPay
- Nationwide
- Teachers2parents
- Gwasanaethau Plant a'r Heddlu
- Gwasanaethau cefnogi'r awdurdod lleol
- Seicolegydd Addysg
- Cardiau meddygol, asesiadau risg, cynlluniau gofal iechyd ac adroddiadau am ddamweiniau
- Cwmnïau Teithio/Hediadau
- Rhaglen Ymddiriedolaeth Gymunedol yr Elyrch

5. Bydd y data personol rydym yn ei gasglu gennych yn cael ei ddefnyddio gan yr ysgol yn unol â pholisi cadw'r ysgol (sydd ar gael o'r ysgol a/neu ar wefan yr ysgol).
6. Sylwer bod gofyn i ni gasglu data personol penodol dan ofynion statudol ac mewn achosion o'r fath gall eich methiant i roi'r wybodaeth honno i ni arwain at anallu'r ysgol i ddarparu gwasanaeth i chi a/neu gallai'ch gwneud yn atebol i achosion cyfreithiol.
7. Byddem yn eich hysbysu bod gennych yr hawl, o dan Erthygl 21 y GDPR, i gyflwyno gwrthwynebiad i'r ysgol ar unrhyw adeg ynghylch y ffaith ein bod yn prosesu'ch data personol at ddibenion cynnal tasg gyhoeddus neu arfer ein hawdurdod swyddogol.
8. Ni fydd yr ysgol yn trosglwyddo unrhyw elfen o'ch data personol y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd. Bydd holl waith prosesu eich data personol gennym ni yn cael ei wneud yn y Deyrnas Unedig neu yng ngwledydd eraill yr Undeb Ewropeaidd.
9. Ni fydd yr ysgol yn defnyddio'ch data personol at ddibenion gwneud penderfyniadau awtomataidd.
10. Sylwer, o dan y GDPR, y rhoddir yr hawliau canlynol i unigolion mewn perthynas â'u data personol:
  - i. Hawl i gael mynediad at eu data personol a gedwir gan reolwr data.
  - ii. Yr hawl i gywiro data gwallus gan reolwr data.

iii. Yr hawl i ddileu eu data (mewn rhai amgylchiadau cyfyngedig).

iv. Yr hawl i gyfyngu ar brosesu eu data gan reolwr data (mewn rhai amgylchiadau cyfyngedig).

v. Yr hawl i wrthwynebu i'w data gael ei ddefnyddio ar gyfer marchnata uniongyrchol.

vi. Yr hawl i gludadwyedd data (h.y. trosglwyddo data'n electronig i reolwr data arall).

Gellir cael mwy o wybodaeth am yr holl hawliau uchod ar wefan y Comisiynydd Gwybodaeth yn [www.scg.org.uk](http://www.scg.org.uk): [www.ico.org.uk](http://www.ico.org.uk).

11. Os bydd gennych unrhyw ymholiadau ynghylch ein defnydd o'ch data personol, rydych yn dymuno cael mynediad at yr un data neu rydych am wneud cwyn am brosesu'ch data personol, ysgrifennwch at Swyddog Diogelu Data'r ysgol yn y cyfeiriad canlynol:

YGG Rhosafan  
Marine Drive  
Sandfields  
Port Talbot  
SA12 7NN

12. Sylwer os ydych yn cyflwyno cais neu gŵyn i Swyddog Diogelu Data'r cyngor ac rydych yn anfonolion ar ymateb yr ysgol, mae hawl gennych i gwyno'n uniongyrchol i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Gellir dod o hyd i fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd a mwy o wybodaeth am eich hawliau ar wefan y comisiynydd yn [www.ico.org.uk](http://www.ico.org.uk).